

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin (LAF)

Cofnodion Cyfarfod

Dydd Iau 22 Hydref 2020

Ar-lein drwy Microsoft Teams, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB)
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Geoff Williams (GW)
Jillie Gardiner (JG)
Paul Barrett (PB)
David Stacey (DS)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) - Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cynghorydd Hazel Evans (HE)
Steve Pilliner Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Dim

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Dim

*Mae CSC yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin yn y cofnodion

** Mae CNC hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cofnodion

EITEM	CMAU GWEITHREDU
<p>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Croesawodd MH bawb i'r cyfarfod ac esboniodd sut y bydd cyfarfod trwy Microsoft Teams yn gweithio</p>	
<p>Eitem 2 - Ymddiheuriadau</p> <p>CNC Martin Murray - Cynrychiolydd Cynnal a Chadw Mynediad i Gefn Gwlad</p>	
<p>Eitem 3 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</p> <p>Jane Evans (Cynrychiolydd BHS)</p>	
<p>Eitem 4 - Covid19</p> <p>SP - Amlinellodd y gwahanol waith y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gorfod ei wneud i gadw cymunedau a staff yn ddiogel yn ogystal â chwrdd â gofynion newydd a dwyn goblygiadau ariannol yr holl newidiadau.</p> <p>KB - ddim yn siŵr bod y cyhoedd yn gwybod faint o bwysau sydd ar yr Awdurdod.</p> <p>SP - Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi bod yn brysur iawn yn llunio negeseuon diogelwch ynghylch Covid. Byddai'n adrodd yn ôl nad yw'r cyhoedd efallai wedi cael gwybod cymaint mae'r Awdurdod wedi gorfod addasu.</p> <p>MH - Roedd nifer o bryderon wedi'u codi ynghylch: rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ystod y cyfyngiadau symud trwy'r Fforwm Mynediad Lleol, roedd mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith yn debygol o arwain at hyn. Trosglwyddwyd pryderon er gwybodaeth.</p> <p>SP - Dim ond digwyddiadau critigol y gallai'r tîm cynnal a chadw ymateb iddynt. Roedd y tîm cyfreithiol yn ymdrin ag ystod o faterion yn ymwneud â thirfeddianwyr a chwynion ynghylch rhwystrau. Anelu at ddull mwy strategol o'r flwyddyn nesaf ymlaen i oresgyn materion tymor hir gyda'r cyllid sydd ar gael. Mae gwaith recriwtio yn mynd rhagddo.</p> <p>HE – Nid oedd yn amddiffyn y diffygion ond cynyddodd y defnydd o'r rhwydwaith yn aruthrol oherwydd y neges ynghylch ymarfer corff. Roedd yn rhaid i wasanaethau eraill fel casglu gwastraff gael blaenoriaeth ond gallai weld dwy ochr y mater.</p> <p>KB - mae deall yr heriau yn helpu i ddeall pam nad yw rhai gwasanaethau wedi gallu darparu yn ôl yr arfer.</p>	<p>SP</p>

JG - a fydd y gwaith o drefnu gwirfoddolwyr yn cael ei ddwyn ymlaen o ystyried yr heriau cynnal a chadw?

CF - Datblygu CAMS i helpu i drefnu a rheoli gwirfoddolwyr o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

PB - oes gennym ni 4 Ceidwad o hyd ac un ym Mhen-bre

CF - Oes, mae gennym 4 Ceidwad ymroddedig o hyd

RL - roedd yna broblem o ran pobl yn cerdded ar lwybrau y maen nhw'n eu hadnabod yn unig gan nad oedd yna arwyddbyst, gyda gordyfiant ar hyd llwybrau eraill.

CF - byddwn yn trafod arwyddion yn yr eitem nesaf.

Eitem 5 - Cyllid

CF - Sicrhawyd cyllid ychwanegol ar ôl colli grant y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Roedd COVID wedi gohirio gwariant ond mae gwaith cynllunio prosiect ar y gweill i wario'r arian yn strategol. Dyma'r syniadau prosiect ar hyn o bryd sydd wedi'u cyfeirio at nodau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a lleihau materion ...

- Rhaglen arwyddbyst- lleihau materion, gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a dyletswydd statudol
- Prosiect marchogaeth yng ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin - gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, darpariaeth aml-ddefnyddiwr
- Prosiect Cilffordd o amgylch Cydweli - gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, darpariaeth aml-ddefnyddiwr
- Datblygiad CAMSWeb - gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, rheoli gwirfoddolwyr
- Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol â Blaenoriaeth Uchel - lleihau materion, gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, dyletswydd statudol

SP - Rydym yn ffodus i fod wedi sicrhau arian yn llwyddiannus, bydd sicrhau grantiau yn ategu arian Cyngor Sir Caerfyrddin gyda chynllun strategol i'w wario.

MH - Gobeithio y bydd rhai canlyniadau cadarnhaol

KB - Newyddion da, rhowch fanylion pan fydd gennych chi rai.

CF - mae'n rhaid i ni sicrhau bod y prosiectau'n rhai y gellir eu cyflawni cyn i ni eu rhannu'n eang i atal siom. Mae hyn hefyd yn sicrhau nad yw'r cynigion yn dod yn hysbys i'r cyhoedd cyn i ni gael cyfle i siarad â thirfeddianwyr yr effeithir arnynt.

<p>Eitem 6 - Diwygio Mynediad</p> <p>CF - Cwblhawyd cam 3 Diwygio Mynediad 4 wythnos yn ôl. Casglwyd yr holl adborth ymgynghori; gwnaed defnydd da o'r wybodaeth a ddarparwyd. Roedd grwpiau arbenigol wedi rhoi sylwadau. Nid yw'r broses ddiwygio wedi'i gohirio hyd yn hyn er gwaethaf Covid19.</p>	
<p>Eitem 7 – Adroddiadau ar Faterion</p> <p>RL - roedd y wybodaeth a anfonwyd yn adrodd cyfrolau. Roedd yn cydnabod bod y ffigurau'n cynyddu, yr uchaf i'w weld hyd yma. Gyda chapasiti ychwanegol gobeithio y bydd y ffigurau'n dechrau gostwng.</p> <p>HE - Fel y soniwyd yn gynharach, roedd mwy o ddefnyddwyr nag erioed ar y rhwydwaith yn cyfrannu at y cynnydd mewn materion. Y flwyddyn nesaf, y gobaith yw cael mwy o wirfoddolwyr a chynghorau cymuned i helpu i gadw'r rhwydwaith ar agor.</p> <p>KB - a yw'r ffigurau yn helpu i wneud cynigion am adnoddau ychwanegol, dyna oedd y bwriad bob amser.</p> <p>SP - mae'r ffigurau'n ddefnyddiol, yn cadw golwg ar y problemau ac yn llywio'r cynlluniau strategol.</p>	
<p>Eitem 8 - Cynllun Rheoli Asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>CF - Mae gan y rhwydwaith priffyrdd Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) sef Côt Ymarfer ar gyfer rheoli'r rhwydwaith ffyrdd. Y farn yw y dylid cael cynllun tebyg ar gyfer asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus i nodi beth sydd ar y rhwydwaith, y risgiau cysylltiedig a'u blaenoriaeth. Mae defnyddio gwirfoddolwyr yn addas iawn i gynorthwyo gyda'r arolwg rhwydwaith 100% i gyfrannu at y cynllun. Mae gan Gyngor Sir Caint gynllun wedi'i gwblhau, ac sydd ar gael ar-lein, mae rheolwr Hawliau Tramwy Cyhoeddus Caint ac awdur y cynllun wedi tynnu sylw at ei werth.</p> <p>MH - A fydd y cynllun yn cynnwys ffyrdd, Ffyrdd Diddosbarth a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig</p> <p>CF - Mae HAMP yn cwmpasu'r holl rwydwaith ffyrdd a'r Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (i'w gadarnhau)</p> <p>MH - Bydd gan Ffyrdd Diddosbarth, a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig os ydynt wedi'u cynnwys ynddo, flaenoriaeth isel yn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ond maent yn flaenoriaeth uchel fel cyfleuster hamdden</p> <p>KB - Mae'r flaenoriaeth sydd gan HAMP i Ffyrdd Diddosbarth a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig yn bryder i ddefnyddwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd â hawliau uwch</p>	<p>CF</p>

<p>SP - pan fyddwn yn barod i gyflwyno'r ddogfen ar ffurf drafft byddwn yn ei rhannu gyda'r Fforwm Mynediad Lleol.</p>	
<p>Eitem 9 - Unrhyw Fater Arall</p> <p>MH - Sylwadau am y <u>Polisi Codi Tâl</u>, a ddaeth unrhyw sylwadau i law?</p> <p>CF -Derbyniwyd sylwadau a'u hymgorffori; mae'r ddogfen bellach wedi'i chwblhau ac yn mynd trwy gamau olaf proses gymeradwyo'r Cyngor</p> <p>KB - llawer o gwynion yn dod i law ynglŷn â <u>Gatiau sy'n cau eu hunain</u>, ni ddylid eu gosod yn awtomatig ar y rhwydwaith.</p> <p>CF - bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r tîm Cynnal a Chadw. Cânt eu gosod fel rheol oherwydd pryderon gan y tîrffediannwr ynghylch rheoli stoc.</p> <p>MH - <u>Strategaeth Farchogaeth</u></p> <p>CF - Roedd Covid wedi achosi oedi ond y gobaith yw y bydd gwaith ar ddatblygu strategaeth yn dechrau ym mis Ionawr 2021</p> <p>KB - yn deall oedi o achos Covid19, bydd yn parhau i fonitro cynnydd a bydd yn cyfrannu cymaint â phosibl.</p> <p>CF - Diweddariad <u>recrwtio</u>, penodiad yn lle Jason Winter yn ei swydd fel cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad - Tom Eckley. Cadarnhawyd CF fel Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad. Bellach roedd swydd wag Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad i'w recrwtio cyn gynted â phosib.</p> <p>JG - Nid oes gan <u>lwybrau a hyrwyddir</u> unrhyw gydnabyddiaeth o ran hygyrchedd i <u>ddefnyddwyr anabl</u></p> <p>KB - mae angen gwella hyn, mae'n anodd dod o hyd i lwybrau hygyrch</p> <p>CF - bydd y sefyllfa hon yn cael ei chodi gyda Martin er mwyn iddo siarad â'r Tîm Marchnata am rai posibiliadau i gynnwys gwybodaeth ychwanegol.</p> <p>MH - <u>Diolch</u> i Gyngor Sir Caerfyrddin am gynorthwyo'n brydlon gyda mater peryglus yn ymwneud â Ffordd Ddiddosbarth</p> <p>PB - Cyn y cyfyngiadau symud, anfonwyd <u>ymgyngoriadau Gorchymyn Llwybrau a Chynllunio</u> trwodd yn rheolaidd, mae hyn wedi dod i ben, mae'n debyg bod y gwaith wedi bod ar stop.</p> <p>MH - Ymddiheuriadau, bu rhai er nad llawer, byddaf yn ceisio anfon unrhyw rai nad ydynt efallai wedi'u hanfon at aelodau.</p>	<p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>MH</p>

Eitem 10 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol

MH - Dim i'w ychwanegu heblaw eitemau safonol

Eitem 11 - Cyfarfodydd ar gyfer 2020/2021

MH - Symud cyfarfod 3 Rhagfyr 2020 i 14 Ionawr 2021

CF - Trefnu cyfarfodydd 2021 yn y flwyddyn newydd.

MH - trefnu un cyfarfod ar y tro gan fod cyfyngiadau Covid yn cael cymaint o effaith.